**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD MAWRTH, 28 TACHWEDD 2023**

**Y CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: S.K.Hunt, S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley, S.Harris, J.Hale a/ac W.F.Griffiths

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

N.Daniel, H.Jones, C.Griffiths, K.Warren, C.Furlow-Harris, H.Lewis, L.Willis, A.Thomas a/ac T.Davies

**Cadeirydd Craffu:** Councillor P Rogers

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

The following Members made declarations of interest at the start of the meeting:

Councillor S.Harris — Re Item 6 – Nomination of an Elected Member to the National Adoption Services Committee – as the report refers to her.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

5. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

6. **ENWEBU AELOD ETHOLEDIG I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU MABWYSIADU CENEDLAETHOL**

**Penderfyniad:**

Bod y Cyng. Sian Harris, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant a Theuluoedd, yn cael ei phenodi'n enwebai Cyngor Castell-nedd Port Talbot i'r Pwyllgor Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cyflawni cyfrifoldebau'r cyngor o dan Gyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

7. **GOSOD SYLFAEN TRETH Y CYNGOR 24/25**

**Penderfyniadau:**

1. Bod y Sylfaen Treth y Cyngor net 2024/25 o £48,827.47 ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan, yn cael ei chymeradwyo.

2. Bod y swm a ddangosir ym mharagraff 4 yr adroddiad a gylchredwyd yn cael ei gymeradwyo ar gyfer pob ardal Cyngor Tref a Chymuned.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Pennu Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Mae'r penderfyniadau i'w rhoi ar waith ar unwaith, yn dilyn cytundeb y cadeirydd craffu. Ni fydd unrhyw alw i mewn ar gyfer yr eitem hon.

8. **ADOLYGIAD O STRATEGAETH DIGIDOL ARCHWILIO CYMRU - YMATEB SEFYDLIADOL**

**Penderfyniad:**

Bod y ddogfen Ymateb Sefydliadol, y bydd Swyddogion yn ei rhoi i Archwilio Cymru, fel y nodwyd yn Atodiad 3 i'r adroddiad a gylchredwyd, yn cael ei chymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod y cyngor wedi ystyried canfyddiadau'r Adolygiad o'r Strategaeth Digidol Thematig ac wedi ymateb iddynt.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Mae'r penderfyniad i'w roi ar waith ar unwaith, yn dilyn cytundeb y cadeirydd craffu. Ni fydd unrhyw alw i mewn ar gyfer yr eitem hon.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CORFFORAETHOL "ADFER, AILOSOD, ADNEWYDDU" 2022-2027 AR GYFER Y CYFNOD: 1 EBRILL 2022 I 31 MAWRTH 2023**

**Penderfyniadau:**

1. Bod Adroddiad Blynyddol 2022-2027 y Cynllun Corfforaethol drafft "Adfer, Ailosod, Adnewyddu" ar gyfer y cyfnod: 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023, yn cael ei gymeradwyo i'r cyngor i'w fabwysiadu.

2. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Arweinydd y Cyngor i wneud y fath newidiadau ag y mae eu hangen i'r Adroddiad Blynyddol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw'r fath newidiadau'n newid cynnwys y ddogfen a ystyriwyd gan y Cabinet yn sylweddol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **RHAGLEN NEWID STRATEGOL 2023-2024 - "GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AR GYFER EIN POBL, EIN LLEOEDD A'N PLANED" - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

11. **CYNLLUN GWEITHREDU GWELLA LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AR GYFER 2023-2024 - ADRODDIAD CYNNYDD HANNER BLWYDDYN**

**Penderfyniad:**

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

12. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

13. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**: Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Llywodraeth Leol 19722.

14. **SGILIAU CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU A ROWND 2 Y RHAGLEN LLUOSI**

Cywirodd Swyddogion gamgymeriad bach mewn perthynas â manylion y cyllid yn Atodiad 1 i'r adroddiad preifat a gylchredwyd, ynghylch 'Technocamps' Prifysgol Abertawe: Prosiect Llwybrau Sgiliau Digidol. Amlygwyd cywiriad hefyd mewn perthynas â'r pum cais Lluosi a dderbyniwyd yn dilyn yr alwad agored.

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r sgrinio Asesiad Effaith Integredig:

1. bod y prosiectau a restrir yn Atodiad 1 i'r adroddiad preifat a gylchredwyd a gyflwynwyd o dan Alwad Agored Sgiliau Cronfa

Ffyniant Gyffredin y DU Castell-nedd Port Talbot, yn cael eu CYMERADWYO yn amodol ar gymeradwyaeth yn cael ei rhoi gan y Pennaeth Eiddo ac Adfywio i'r asesiadau Rheoli Cymhorthdal.

2. NAD yw'r prosiectau a restrir yn Atodiad 2 i'r adroddiad preifat, a gylchredwyd a gyflwynwyd o dan Alwad Agored Sgiliau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Castell-nedd Port Talbot, yn cael eu cymeradwyo.

3. Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, yr Arweinydd a'r Aelod/au Cabinet perthnasol i gymeradwyo prosiectau a gyflwynwyd o dan Alwad Agored Rownd 2 Rhaglen Lluosi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Castell-nedd Port Talbot.

4. Bod proses newid prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn cael ei chymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i roi Cynllun Gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar waith a dweud wrth ymgeiswyr Sgiliau a Lluosi am y penderfyniad ariannu galwad agored.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

15. **CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH MORGANNWG (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

1. Bod y ceisiadau am ddyfarniadau, fel y nodwyd yn Atodiadau B ac C i'r adroddiad preifat a gylchredwyd a wnaed o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Morgannwg ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/2024, i geisiadau cymwys a dderbyniwyd ar neu cyn y dyddiad cau, yn cael eu cymeradwyo.

2. Bod dyrannu arian hyd at uchafswm o £1,832.00 ar gyfer 5 myfyriwr amser llawn (fel y nodwyd yn Atodiad B) ac £840.00 ar gyfer 1 myfyriwr rhan-amser (fel y nodwyd yn Atodiad C) yn cael ei gymeradwyo.

3. Bod y taliadau i'r ymgeiswyr hynny y cymeradwywyd cefnogaeth barhaus gan Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Morgannwg ar eu cyfer eisoes, yn parhau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu cefnogaeth ariannol briodol i fyfyrwyr a fyddai fel arall yn dioddef caledi.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 16. CRONFA YMDDIRIEDOLAETH HAROLD A JOYCE CHARLES (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)

**Penderfyniadau:**

1. Bod y ceisiadau am ddyfarniadau, fel y nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad preifat a gylchredwyd, a wnaed o Gronfa Harold a Joyce Charles, ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/2024 i geisiadau cymwys a dderbyniwyd ar neu cyn y dyddiad cau, yn cael eu cymeradwyo.

2. Bod y dyraniad ariannol o £3,000.00 ar gyfer 2 fyfyriwr amser llawn (y manylir arno yn Atodiad B i'r adroddiad preifat a gylchredwyd), yn cael ei gymeradwyo

3. Bod taliadau'n parhau i'r ymgeiswyr hynny y mae cefnogaeth barhaus gan Gronfa Harold a Joyce Charles ar eu cyfer eisoes wedi'i chymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Darparu cefnogaeth ariannol briodol i fyfyrwyr a fyddai fel arall yn dioddef caledi.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Bydd y penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**